

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 07.02.2017
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Arwel Nicholas, Danny Davies, Dylan Jones, Elfed Davies, Carolyn Smethurst, Mike Poston, Cyngorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau: Wyn Thomas, Pamela Jones

| Rhif Agenda | Nodiadau/ Penderfyniadau | I'w weithredu gan |
|--------------------|---|--------------------------|
| | Y Cadeirydd, Arwel Nicholas yn estyn croeso arbennig i'r Cyngorydd Sir, Irfon Jones ar ddychwelyd ar ôl derbyn triniaeth meddygol. | |
| Datgan Buddiannau | Neb | |
| Cofnodion | Derbyniwyd iddynt fod yn gywir; DJ & MP | |
| Materion yn Codi | <p>Goleuadau Stryd LED – y Clerc heb gysylltu gyda'r Adran eto i holi ynglyn a diweddarau y goleuadau i'r dull newydd o greu golau.</p> <p>Etholiadau Mis Mai – Clerc heb dderbyn mwy o wybodaeth oddi wrth y Sir eto.</p> <p>Cynllun Gwella Trafnidiaeth - J McEvoy yn mynd i holi i'r Technegwyr sydd a chyfrifoldeb dros weithredu'r cynllun ynglyn a'r amserlen. MP yn cyfeiro at yr arwydd newydd ei osod sydd yn rhybuddio am uchder y bont fod y mesur yn wahanol i'r hen arwydd ar y bont. Clerc yn adrodd ar yr ateb cynhwysfawr a dderbyniwyd oddi wrth Adran Priffyrdd ynglyn a'r gwaith sydd angen ei wneud.</p> <p>Diffaethwch Pembompren – AN yn holi; 'ydi'r Cyngor o blaid perchnogi'r tir?' DD yn holi a fydd costau ychwanegol yn gysylltiedig a chymeryd y tir, e.e. llwybyr, mainc? ED yn codi pryderon tebyg sef yswiriant a baw cŵn? Mae yna fannau arall o ddiffeithwch yn y gymuned, paham dewis perchnogi hwn? CS yn adrodd eto y byddai cymorth rhad ac am ddim oddi wrth Cadw Cymru'n Daclus i wneud gwaith cynnal a chadw ar y tir; ni fyddai rhaid mynd i gost ychwanegol os perchnogi'r tir. AN yn awyddus fod ateb terfynnol i'r mater yn y cyfarfod hwn, CS yn awyddus i gynnal pleidlais. AN yn gofyn am gynnigydd ac ED yn cynnig pleidleisio.</p> <p>Canlyniad y bleidlais: 2 o blaid a 3 yn erbyn. Penderfyniad y Cyngor felly oedd i beidio a meddiannu'r tir.</p> | |
| Gohebiaeth | <p>Simon Hart a'l Gylchlythyr</p> <p>Gweithredu Ynni Lleol – gofyn i Paul Thomas, Rheolwr y Prosiect i annerch cyfarfod Mis Mawrth</p> <p>Blychau BT – CS yn dsigrifio defnydd posib o'r Blychau sef,</p> | |

| | | |
|---------------------|--|--|
| | <p>gosod gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol ynddynt; pawb o blaid y syniad. Clerc a DD yn fodlon gwneud ymchwil ar sut mae eu haddasu.</p> <p>Chris Peake – Clerc yn adrodd hanes am y graffiti anwedus a welwyd gan Mr Peake yn y safle bws gerllaw Teras Gwili. Wedi cyfeirio'r achos at yr Heddlu oherwydd difrifoldeb defnydd iaith.</p> <p>Band Eang – CS yn son am drafferthion Kaye Bowen gyda'r Band Eang ac iddi gysylltu gyda Simon Hart ac Angela Burns. Nid yw BT yn fodlon gosod dyddiad pa bryd y daw Band Eang cyflym I Llanpumsaint.</p> <p>Mynwent Bethel – cais oddi wrth Henaduriaeth Myrddin am gymorth ariannol I gadw'r fynwent yn daclus. Penderfyniad y Cyngor oedd I beidio a chynnig cymorth oherwydd nifer y mynwentydd sydd yn y gymuned</p> <p>Eiriol – AN, DD a CS am mwy o wybodaeth am yr elusen sydd yn cynnig cymorth i'r rhai sydd yn cynnig gofal ar yr aelwyd.</p> | |
| Cynllunio | Pownd dŵr yn Troedrhyw Aur – o blaid | |
| Elusennau | <p>ED – beth am godi'r Praesept er mwyn ariannu'r Cae Chwarae, nifer fach o bobl sydd yn talu tuag at ei gynnal ar hyn o bryd, er, mae yn adnodd I'r gymuned gyfan. Wrth godi'r Praesept, fyddai pawb yn cyfrannu. MP yn cynnig gohirio gwneud penderfyniadau tan Mis Tachwedd rhag ofn fydd cost etholiad. Pawb yn cytuno cefnogi Llais y Llan a'r Neuadd Goffa, a'u trin yn gyfartal. AN yn gofyn pa faint dylsai'r cyfraniad I fod? Penderfynwyd talu £400 I'r ddau, pawb yn gytun a DJ yn eilio.</p> | |
| Materion Ariannol | Trywydd- £54.00. DD & DJ Clerc – £130.60, Treth £4.40. DJ & ED | |
| UFA | <p>MP – arwydd 'Cae Chwarae' ar glawdd y Ficerdy o'r golwg tu ol I wrych Pantycelyn; Clerc I gyfeirio'r mater I'r Adran Priffyrdd. Curaid Calon Llanpumsaint wedi derbyn arian oddi wrth y Loteri Fawr I ariannu 3 Adfywiwr arall</p> <p>CS – Dim</p> <p>ED – Twll yn yr heol rhwng Penhill a Clover Hill</p> <p>DJ – Dim</p> <p>DD – Dŵr ar Rhiw Maenllwyd yn parhau I fod yn drafferthus; Twll yn yr heol wedi ymddangos o Cartref I fynny at Ffynnonhenri. IJ yn cynnig bod y Clerc yn danfon gwybodaeth ato ac I'r adran Priffyrdd.</p> | |
| Cyfarfod yn gorffen | 9.25 | |

| | |
|-------------------------|-------------------------|
| Cafwyd yn gywir : | Cafwyd yn gywir : |
| (Cadeirydd) | (Ysgrifennydd) |

Dyddiad :

Dyddiad: